

**CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**  
Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.  
Teleffon: Botwnnog 730357

**NODER AMSER DECHRAU**

3ydd Tachwedd, 2021

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor **Nos Lun nesaf, 8fed Tachwedd, 2021** am **7.00 y.h.** dewy gyfrwng 'zoom.' 'Rydym fel Cyngor yn ddiolchgar iawn i'r Cynghorydd Michael Strain am ein galluogi i wneud hyn.

**RHAGLEN**

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**
2. **ARDAL NI 2035**  
Bydd Alys Lloyd Jones, Swyddog Cefnogi Cymunedau, Ardal Dwyfor yn ymuno a ni i drafod yr uchod.
2. **YMDDIHEURIADAU**
3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**  
I dderbyn gwybodaeth.
4. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 13eg MEDI, 2021**  
Copi'n amgaeëdig. "A"  
I drafod materion yn codi.
5. **CEISIADAU CYNLLUNIO**  
I ystyried y ceisiadau a ganlyn ac unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor. Os bydd cais arall i law, rhoddir gwybodaeth i chwi ymlaen llaw er rhoi cyfle i chwi gael golwg ar y we. **Noder** – nid oes copiau ar bapur yn dod mwyach ond gellwch weld manylion y cais ar safle we Cyngor Gwynedd drwy ddilyn y dolenni o dan y pennawd 'Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu'.
  - (a) Cais C21/0866/32/LL – addasu adeiladau allanol yn ddwy uned wyliau – Neigwl Ganol, Botwnnog
  - (b) Cais C21/0915/32/LL – dymchwel dwy sied amaethyddol bresennol a chodi sied newydd yn eu lle – Fair View, Llangwinnadl.
6. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**  
A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.
7. **ARDAL NI 2035**  
I ystyried e-bost a llythyr gan Swyddog Cefnogi Cymunedau.  
  
Y ddwy ddogfen "Cyflwyniad Ardal Ni 2035 – Pen Llŷn" a "Sut le ydi Pen Llŷn"

wedi eu hanfon drwy e-bost i chwi ar 21ain Medi, 2021.

8. **AWDURDOD I DALU**

I awdurdodi unrhyw daliad ddaw i law cyn dyddiad y Cyngor.

9. **YMGYNGHORIAD AR DRETHI LLEOL AR GYFER AIL GARTREFI A LLETY HUNANARLWYO**

**Gohiriwyd yn y cyfarfod diwethaf.**

Gellir gweld y dogfennau ymgynghoriad a'r ffurflen ymateb ar y wefan isod:

<https://llyw.cymru/trethi-lleol-ar-gyfer-ail-gartrefi-llety-hunanddarpar>

Os oes unrhyw un eisiau copi a wnewch adael i mi wybod.

10. **YMGYNGHORIAD ADRAN DRAFNIDIAETH LLYWODRAETH Y DG AR Y DEFNYDD PERYGLUS O FADAU DWR PERSONOL (Jet skis)**

Llythyr Liz Saville Roberts, AS Dwyfor Meirionydd

Copi'n amgaeedig.

“B”

11. **GWRTHWYNEBU CEISIADAU CYNLLUNIO AR SAIL PERYGL I'R GYMRAEG**

Llythyr Howard Huws, Cylch yr Iaith.

Copi'n amgaeedig.

“C”

12. **MEDDYGFA RHYDBACH**

Cais am wirforddolwyr ar ddydd Sadwrn, 16eg, 23ain a'r 30ain Hydref pan yn rhoddi brechiadau COFID.


13. **MYNWENT LLANDEGWNNIG**

Adroddiad yr Is-bwyllgor gyfarfu yn gynharach ar y noson.

14. **COMIN BRYNCROES**

Cyflwr y Comin.

Yn gywir,



Clarc

**AELODAETH Y CYNGOR  
Y CYNGHORWYR**

David Brunelli  
Dylan Parry Jones  
Carys E. Williams

Carys H. Evans  
Ifor Owen  
Glenys Williams

Elin Hughes  
Glyn Roberts  
Siôn Williams

Gwenan Griffith  
Michael Strain